# Prifysgol Bangor

# Cynllun Dirprwyo a Phwerau Gwneud Penderfyniadau

| **Dyddiad** | **Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid** | **Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei gwblhau** |
|---|---|---|
| 12 Ebrill 2019 | Cyhoeddiad cyntaf | |
| 16 Ebrill 2021 | Adolygu ac ail-gymeradwyo | |
| 7 Gorffennaf 2021 | Mân ddiwygiadau ac ail-gymeradwyo gan Gadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | |
| 23 Mehefin 2023 | Adolygiad llawn ac ail gymeradwyo gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a'r Cyngor | |

| **Swyddog Polisi** | **Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol** | **Cymeradwywyd gan** | **Dyddiad** |
|---|---|---|---|
| | Ysgrifennydd y Brifysgol | Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu<br><br>Cyngor y Brifysgol | 23 Mehefin 2023<br><br>7 Gorffennaf 2023 |

*Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen dwy flynedd*

**Prifysgol Bangor**

**Cynllun Dirprwyo a Phwerau Gwneud Penderfyniadau**

## 1. Rhagarweiniad

Mae'r brifysgol yn gorfforaeth annibynnol y mae ei statws cyfreithiol yn deillio o Siarter Frenhinol a ddyfarnwyd yn wreiddiol ym 1885. Fe'i cofrestrwyd fel elusen (rhif 1141565) yn 2011. Pennir ei hamcanion, ei phwerau a fframwaith ei threfn lywodraethu yn y Siarter, y cymeradwyir diwygiadau iddynt gan y Cyfrin Gyngor o bryd i'w gilydd.

Y Cyngor yw'r corff llywodraethu ac mae'n gyfrifol am gyllid, eiddo, buddsoddiadau a busnes cyffredinol y brifysgol, ac am bennu cyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad.

Mae'r cynllun hŵyn yn nodi'r cyfrifoldebau a'r awdurdodau dirprwyedig i wneud penderfyniadau allweddol yn enw Prifysgol Bangor neu ar ei rhan. Rhoddir pwyslais ar y penderfyniadau hynny a wneir gan Gyngor y brifysgol, neu a ddirprwywyd ganddo, ond mae'r ddogfen hefyd yn manylu ar gyfrifoldebau eraill am benderfyniadau allweddol, yn unol â Siarter, ordinhadau a pholisïau cyhoeddedig y brifysgol. Ni fwriedir iddo fod yn ddisgrifiad llawn a chyflawn o swyddogaethau, cylchoedd gorchwyl, cyfrifoldebau a phwerau pob pwyllgor ac unigolyn.

Mae'r Cynllun hwn yn nodi'r cyfrifoldeb am gam cymeradwyo terfynol y broses benderfynu, tra'n darparu fframwaith i lywio'r broses o wneud penderfyniadau mewn meysydd eraill. Nid yw'n ymwneud â lleoliad y cyfrifoldeb am y ffurf wreiddiol ar ba bynnag gynnig neu argymhelliad y mae angen gwneud penderfyniad terfynol arno. Yn nodweddiadol, bydd cyfrifoldeb o'r fath yn cael ei nodi o fewn cylch gorchwyl pwyllgor penodol, neu'n gyfrifoldeb uwch swyddogion unigol, fel y nodir yn eu swyddogaethau.

## 2. Prif Egwyddorion

1. Paratowyd y cynllun hwn gan gyfeirio'n ofalus at Siarter ac Ordinhadau'r brifysgol, ond dylid nodi mai gan y Siarter a'r Ordinhadau y mae'r awdurdod eithaf, pe bai unrhyw wrthddweud.

2. Lle bo'r Cyngor wedi dewis dirprwyo cymeradwyo a gweithredu penderfyniad neu broses, mae'n cadw atebolrwydd a chyfrifoldeb corfforaethol eithaf dros y penderfyniad neu'r broses honno, a gellir tynnu'r dirprwyo hwn yn ôl ar unrhyw adeg.

3. Oni bai bod y Siarter neu Ordinhadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor weithio gyda'r Is-ganghellor, y Senedd neu bartïon eraill ynghylch penderfyniadau neu brosesau allweddol dylid rhagdybio bod y Cyngor yn cadw'r hawl i awdurdodi mewn meysydd lle mae ganddo'r awdurdod eithaf.

4. Fel prif weithredwr ac uwch swyddog academaidd y brifysgol, mae'r Is-ganghellor yn gyfrifol i Gyngor y Brifysgol - o fewn y fframwaith a bennir gan y Siarter ac Ordinhadau, y Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd a'r Cod Rheolaeth Ariannol rhwng y Brifysgol a HEFCW, Rheoliadau Ariannol y brifysgol a'r Cynllun Dirprwyo a Phwerau gwneud Penderfyniadau hwn - ar gyfer rheoli

gweithredol pob agwedd ar waith y brifysgol. Gall yr Is-ganghellor ddirprwyo cyfrifoldeb am agweddau penodol ar reolaeth y brifysgol i'r Bwrdd Gweithredol ac i swyddogion a deoniaid y brifysgol, ond ganddo ef/ganddi hi y mae'r cyfrifoldeb eithaf.

5. Mae’r Prif Swyddog Cyllid yn atebol i Gyngor y Brifysgol (trwy’r Is-ganghellor) am sefydlu a chyflawni strategaeth ariannol, rheolaeth ariannol, a materion ariannol eraill.

6. Mae Ysgrifennydd y Brifysgol yn atebol i Gyngor y Brifysgol (trwy’r Is-ganghellor a Chadeirydd y Cyngor) am lywodraethu effeithiol yn y brifysgol ac ef/hi yw Ysgrifennydd y Cyngor a’i bwyllgorau. Mae Ysgrifennydd y Brifysgol wedi dirprwyo swyddogaeth ysgrifenyddol rhai pwyllgorau i swyddogion eraill y brifysgol

7. Mae’r Prif Swyddog Gweithredu yn gyfrifol i Gyngor y brifysgol (trwy'r Is-ganghellor) am arweinyddiaeth a rheolaeth gyffredinol gwasanaethau proffesiynol, ac eithrio timau’r Gwasanaethau Ariannol ac Ysgrifennydd y Brifysgol, yn unol â'u disgrifiadau swydd a pholisïau a rheoliadau ariannol y brifysgol. Gallant ddirprwyo cyfrifoldeb dros agweddau penodol ar y gwasanaeth i gyfarwyddwyr, ond hwy sy'n gyfrifol yn y pen draw am reoli eu gwasanaethau.

8. Mae'r Dirprwy Is-gangellorion (trwy'r Is-ganghellor) a’r Dirprwy Is-gangellorion a Phenaethiaid Coleg (trwy’r Dirprwy i’r Is-ganghellor) yn gyfrifol i Gyngor y brifysgol am arweinyddiaeth a rheolaeth gyffredinol eu meysydd portffolio, a lle bo’n berthnasol eu priod golegau, yn unol â'u disgrifiadau swydd a pholisïau a rheoliadau ariannol y brifysgol. Gallant ddirprwyo cyfrifoldeb dros agweddau penodol ar eu portffolios/rheoli’r colegau i eraill ond hwy sy’n gyfrifol yn y pen draw.

9. Pan mae pŵer wedi ei ddirprwyo, mae'n hanfodol bod yr uwch swyddog y dirprwywyd awdurdod iddo/iddi yn sicrhau bod fframweithiau a gweithdrefnau priodol ar waith o fewn eu maes cyfrifoldeb cyn dirprwyo ymhellach (gweler 11 isod). Ymhellach, rhaid i unrhyw ddirprwyo cyfrifoldeb pellach hefyd fod yn amodol ar weithdrefnau cyffredinol y brifysgol ar gyfer trafodion ariannol a materion polisi, a chael ei lywio ganddynt.

10. Diffinnir pwerau'r Senedd yn y Siarter, fel *awdurdod academaidd y brifysgol, sy'n gyfrifol am y gwaith academaidd ym maes addysgu ac ymchwil ac am reoleiddio ac arolygu addysg a disgyblaeth myfyrwyr. Caiff y Senedd weithredu unrhyw swyddogaethau eraill a roddir iddi gan yr Ordinhadau.*

    Gall y Senedd ddirprwyo rhai o'i phwerau i is-bwyllgorau neu fyrddau coleg, ac mae gan y Senedd hefyd yr hawl i drafod a datgan barn am unrhyw fater academaidd sy'n ymwneud â'r brifysgol a bydd Cyngor y brifysgol yn cymryd hynny i ystyriaeth. Mewn perthynas â materion academaidd, yr Is-ganghellor yw cadeirydd y Senedd yn rhinwedd ei swydd ac felly gall, lle bo angen er budd y brifysgol, wneud penderfyniadau a ran y Senedd o fewn ei phriod feysydd (rhoddir gwybod am benderfyniadau o'r fath i gyfarfod nesaf y Senedd).

11. Ac eithrio fel y darperir yn wahanol, gall unigolion a chyrff y mae awdurdod wedi ei ymddiried iddynt gan y Cynllun Dirprwyo a Phwerau Gwneud Penderfyniadau hwn, is-ddirprwyo i eraill ar yr amod bod is-ddirprwyo o'r fath yn gyson â rheoliadau ariannol a rheoliadau eraill ac yn cael ei gofnodi a'i adrodd (er enghraifft i’r Prif Swyddog Cyllid mewn perthynas â lefelau awdurdod

ariannol). Pan fo awdurdod wedi'i is-ddirprwyo wedi'i sefydlu, rhaid i'r rhai y mae awdurdod wedi'i freinio ynddynt gan y Cynllun hwn gadw, a diweddaru, rhestr is-ddirprwyo wedi'i llofnodi a'i dyddio, sy'n nodi'r cyfrifoldebau sydd gan aelodau staff eraill.

12. Os bydd digwyddiad neu argyfwng mawr, cydnabyddir y gall fod angen gwneud penderfyniadau mewn ffordd wahanol i'r trefniadau arferol a amlinellir yn y cynllun hwn. Mae nifer o drefniadau wedi eu sefydlu i gefnogi amgylchiadau o'r fath. Amlinellir awdurdodau a chyfrifoldebau penodol yn achos digwyddiad neu argyfwng mawr ym mholisi'r brifysgol ar reoli argyfyngau a chynllun ymateb i argyfwng mawr.

13. Bydd y ddogfen hon yn parhau i fod yn ddogfen fyw a chaiff ei diweddaru'n rheolaidd fel sy'n briodol. Bydd y fersiwn ddiweddaraf yn cael ei chadw gan Ysgrifennydd y Brifysgol a bydd yn destun adolygiad rheolaidd, bob tair blynedd o leiaf, gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.

## 3. Gweithredu pwerau dirprwyedig

Wrth weithredu eu pwerau dirprwyedig o dan y Cynllun hwn, ac yn unol â deddfwriaeth, RHAID i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau (gall gwneuthurwr penderfyniadau fod yn unigolyn neu'n bwyllgor) sicrhau'r canlynol:

a) Gweithredu er lles gorau'r brifysgol, ei staff, a'i myfyrwyr, ac nid o dan gyfarwyddyd trydydd parti.
b) Gweithredu yn unol ag amcanion strategol y brifysgol; ei rheolau, ei rheoliadau, a'i gweithdrefnau; ac o fewn unrhyw gyfyngiadau cyllidebol neu gyfreithiol.
c) Gweithredu o fewn cwmpas eu pwerau – nid oes gan unrhyw wneuthurwr penderfyniadau awdurdod dilyffethair i wneud penderfyniadau ar faterion y tu allan i gwmpas y Cynllun hwn.
d) Gweithredu'n rhesymol, yn ddiduedd ac mewn ewyllys da wrth ddod i benderfyniad.
e) Gwrthod ymdrin â materion lle mae ganddynt wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig (boed yn deg ai peidio).
f) Gweithredu tegwch gweithdrefnol trwy ymgynghori'n briodol â swyddogion, unigolion neu grwpiau eraill sydd â buddiant dilys yn y mater dan sylw a rhoi gwybod iddynt am ddatblygiadau.
g) Gwneud eu penderfyniad terfynol ar ôl rhoi ystyriaeth deg i'r holl dystiolaeth, adborth a chyngor sydd ar gael.
h) Rhowch wybod i bob parti am y canlyniad, a bod yn barod i roi rhesymau
i) Adrodd i'r Cyngor, y Senedd, y Bwrdd Gweithredol, neu'r Pwyllgor perthnasol, fel y bo'n briodol, am bob penderfyniad arwyddocaol a wneir

## 4. Natur y Cynllun

Mae prif fframwaith y cynllun yn amlinellu pwerau gwneud penderfyniadau ar draws y tri chategori eang canlynol:

a) <u>Awdurdodau Cyngor y brifysgol/neu a bennwyd ganddo</u>

Eglurhad ar brif gyfrifoldebau'r Cyngor fel y diffinnir hwy yn Ordinhad 1 gan gynnwys manylion unrhyw ddirprwyo cyfrifoldebau a bennir gan y Cyngor.

b) Awdurdodau a Bennir gan Siarter ac Ordinhad

Ar wahân i gyfrifoldebau'r Cyngor a nodir yn a) uchod, pwerau penderfynu statudol a dirprwyedig eraill a nodir yn Siarter ac Ordinhadau'r brifysgol ac na ellir felly eu diwygio heb gymeradwyaeth y Cyngor a/neu'r Cyfrin Gyngor.

c) Pwerau Gwneud Penderfyniadau Allweddol Eraill

Mae'r rhain yn awdurdodau a phrosesau sydd, er nad ydynt wedi eu cofnodi'n ffurfiol mewn siarter neu ordinhad, nac yn ymwneud yn uniongyrchol â chyfrifoldebau'r Cyngor, serch hynny yn elfennau allweddol o strwythur gwneud penderfyniadau'r brifysgol ac maent wedi eu cynnwys yn y cynllun hwn fel ffynhonnell gyfeirio ddefnyddiol.

**5. Diffiniadau**

| | |
|---|---|
| Mae “awdurdod” | yn cyfeirio at bŵer deilliadol neu ddirprwyedig. Yn achos awdurdod dirprwyedig, dyma'r awdurdod a roddir i unigolyn arall i weithredu ar ran y prif awdurdod hyd at ddiwedd y penderfyniad neu'r broses ddirprwyedig, yn amodol ar unrhyw derfynau a bennir. |
| Mae “cyfeiriwyd trwy” | yn berthnasol i bwyllgorau neu unigolion nad oes ganddynt awdurdod ffurfiol, ond sydd â'r hawl i wneud sylwadau, ac i'r sylwadau hynny gael eu hystyried<br>cyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud. |
| Mae "argymhelliad gan” | yn berthnasol i bwyllgorau neu unigolion nad oes ganddynt y pŵer terfynol i wneud penderfyniadau, ond sydd serch hynny yn chwarae rhan ffurfiol yn y broses gymeradwyo. Mae pwyllgorau neu unigolion o'r fath yn argymell penderfyniad neu bolisïau i'w cymeradwyo'n derfynol. |
| Mae “adrodd i” | yn berthnasol i bwyllgorau neu unigolion nad oes ganddynt awdurdod ffurfiol, ond y dylid eu gwneud yn ymwybodol o'r mater dan sylw naill ai cyn neu ar ôl gwneud penderfyniad, fel sy'n briodol. |
| Mae “cyfrifoldebau” | lle cyfeirir atynt mewn adrannau cysylltiedig o'r Siarter neu’r ordinhadau, gall gynnwys disgrifiadau o swyddogaeth, dyletswyddau cyffredinol hawliau'r corff neu'r unigolyn dan sylw. |

## 6. Is-gwmnïau

Caiff is-gwmnïau sy'n eiddo llwyr i'r brifysgol eu llywodraethu gan eu byrddau eu hunain o ran eu gweithrediadau. Yn y cyd-destun hwn, rhaid i unrhyw ddirprwyo a weithredir ganddynt fod yn gyson â'r rhai a amlinellir ar gyfer y brifysgol yn y ddogfen hon.

Mae'r brifysgol yn sefydlu fframwaith rheoli o fewn ei *Pholisi a Gweithdrefnau Is-gwmniau* y mae'n rhaid iddi weithredu o'i fewn. Mae hwn yn cynnwys yr elfennau canlynol:

a) Penodir yr holl gyfarwyddwyr a'r cadeirydd gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ar ran y Cyngor.
b) Bydd yr erthyglau yn pennu terfynau ar eu cylch gweithredu na ellir eu diwygio heb gydsyniad cyfranddalwyr a'r brifysgol.
c) Rhaid iddynt gyflwyno cynllun busnes yn flynyddol a fydd yn destun adolygiad gan y Pwyllgor Cyllid a chytunir ar gyllideb ar ei sail.
d) Efallai y gofynnir iddynt o bryd i'w gilydd ddarparu cynllun strategol, neu ddiweddariad ohono.
e) Gwneir yr holl drafodion ariannol trwy'r Gwasanaethau Ariannol, gan gynnwys y gyflogres, taliadau, prosesu incwm, arian parod, bancio etc. Bydd rhaid wrth gefnogaeth y Pwyllgor Cyllid i wneud unrhyw gynnydd mewn cyfleusterau benthyg neu gredyd. Lle bo angen gweithredu'n gyflym mewn perthynas ag unrhyw fater ariannol, mae'n hanfodol bod y Prif Swyddog Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir, a bod adroddiad llawn yn cael ei ddarparu i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid.

## 7. Dirprwyo i'r Cadeirydd

Noda Ordinhad 10:

*Awdurdodir cadeiryddion y Cyngor, y Senedd a phob pwyllgor ohono drwy hyn i benderfynu ar faterion brys ar ran y corff y maent yn ei gadeirio.*

*At ddibenion yr Ordinhad hwn, bernir bod 'materion brys' yn cynnwys:*

*(a) materion yn ymwneud â gweithredu'n fanwl faterion a pholisïau y penderfynwyd arnynt eisoes gan y corff dan sylw*
*(b) cyflawni busnes arferol nad yw'n ddadleuol, neu*
*(c) faterion y byddai oedi yn eu cylch yn debygol o greu anhawster diangen a/neu beryglu buddiannau'r brifysgol.*

*Rhoddir gwybod am unrhyw gamau gweithredol a gymerir gan gadeirydd o dan delerau'r ordinhad hwn yn ysgrifenedig i gyfarfod nesaf y corff dan sylw.*

*Cyn cymryd unrhyw gamau gweithredol o'r fath, gall y cadeirydd ymgynghori'n anffurfiol ag unrhyw aelodau o'u pwyllgor sy'n briodol yn eu barn hwy.*

*Bydd gan unrhyw gadeirydd sy'n ystyried bod mater brys a gyfeiriwyd ar gyfer penderfyniad*

*gweithredol yn haeddu ystyriaeth gan y corff dan sylw y pŵer i gynnull cyfarfod arbennig o'r corff i ystyried y mater penodol hwnnw. Bydd unrhyw gyfarfod arbennig o'r fath yn cael ei gynnal, naill ai yn y cnawd neu'n rhithiol, o fewn 7 niwrnod ar ôl i'r cadeirydd benderfynu cynnull cyfarfod, beth bynnag fo darpariaethau unrhyw reolau sefydlog perthnasol i'r corff hwnnw; ystyrir bod y rheolau hynny wedi eu hatal dros dro i ganiatáu i'r cyfarfod gael ei gynnal.*

**8. Amgylchiadau Brys**

Yn absenoldeb egwyddor bendant o awdurdod dirprwyedig, neu os bydd ansicrwydd ynghylch pwy y dylid dirprwyo penderfyniad neu broses iddo/iddi, yr egwyddor arweiniol ddylai fod i 'gyfeirio'r mater tuag i fyny'. Ni ddylai'r bobl neu'r grwpiau hynny y dirprwywyd cyfrifoldeb iddynt am wneud penderfyniadau ddirprwyo'r penderfyniad ymhellach heb gymeradwyaeth.

Nid yw'n ofynnol i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau weithredu pŵer dirprwyedig mewn unrhyw achos a rhaid iddo beidio â gwneud hynny os yw'n ymddangos bod y mater yn cynnwys materion sy'n destun dadlau cyhoeddus, cwestiynau polisi mawr nad ydynt wedi'u penderfynu eto gan y brifysgol neu ei phwyllgorau, neu unrhyw newid sylweddol o ymarfer blaenorol. Mewn achosion o'r fath dylai unrhyw Swyddog neu Bwyllgor y dirprwywyd pŵer i weithredu iddo gyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cyngor neu'r Senedd, neu'r Pwyllgor perthnasol, er mwyn i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud.

Yn absenoldeb yr awdurdod terfynol a'r awdurdod dirprwyedig, rhaid trosglwyddo penderfyniadau i'r Is-ganghellor neu gadeirydd y Cyngor fel sy'n briodol.

## 9. Rhestr o Awdurdodau Terfynol a Dirprwyedig

| | | Awdurdod Terfynol | Awdurdod Dirprwyedig (os oes un) | Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses |
|---|---|---|---|---|
| **9.1** | **Llywodraethu a rheolaeth** | | | |
| **a)** | Diwygiadau i'r Siarter | Cyfrin Gyngor | | Adran 19 y Siarter drwy benderfyniad a basiwyd mewn cyfarfod o’r Cyngor gan fwyafrif o ddim llai na thair rhan o bedair o’r rhai sy’n bresennol ac yn pleidleisio. |
| **b)** | Gweithredu cyfrifoldebau’r Cyngor | Y Cyngor | Cadeirydd y Cyngor (Ordinhad 2)<br><br>Pwyllgorau'r Cyngor (fel y nodir) (Ordinhad 15) | Ordinhad 1<br><br>Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi dewis dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i gadeiryddion pwyllgorau fel y nodir yn Ordinhad 10 |
| **c)** | Gweithredu cyfrifoldebau’r Bwrdd Gweithredol | Y Cyngor | Pwyllgorau’r Brifysgol.<br><br>Byrddau neu Grwpiau Llywio | Ordinhad 16 |
| **d)** | Cymeradwyo Ordinhadau newydd a diwygiedig | Y Cyngor | Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | Ordinhad 10. Ar argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu |
| **e)** | Cymeradwyo Rheoliadau newydd a diwygiedig | Y Senedd | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd | Ordinhad 12 |

| | | Awdurdod Terfynol | Awdurdod Dirprwyedig (os oes un) | Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses |
|---|---|---|---|---|
| **f)** | Cymeradwyo Rheolau Sefydlog newydd a diwygiedig | Y Cyngor | | Ordinhad 1 |
| **g)** | Defnyddio Sêl y brifysgol | Y Cyngor | | Ordinhad 8 |
| **h)** | Rheolau Sefydlog, Aelodaeth a Chylch Gorchwyl ar gyfer Pwyllgorau'r Cyngor | Y Cyngor | Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | Ordinhad 1<br>Ordinhad 15<br>Yn achos aelodaeth pwyllgor aelodau'r Cyngor, argymhellir hyn i'r Cyngor gan Bwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'r Cyngor<br><br>Caiff penodiadau'r Senedd i bwyllgorau'r Cyngor eu hargymell i'r Senedd gan Bwyllgor Enwebiadau'r Senedd. |
| **i)** | Aelodaeth a chylch gorchwyl Pwyllgorau'r Brifysgol | Bwrdd Gweithredol | | |
| **j)** | Datganiadau Budd | Ysgrifennydd y Brifysgol | | Ordinhad 11 - bob blwyddyn bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn gofyn i holl aelodau'r Cyngor a'r Bwrdd Gweithredol a chyfarwyddwyr y gwasanaethau proffesiynol lenwi/diweddaru ffurflen gofrestr buddiannau |

| | | Awdurdod Terfynol | Awdurdod Dirprwyedig (os oes un) | Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Gellir cynnwys grwpiau staff eraill hefyd. |
| **9.2** | **Datblygu Strategaeth a Pholisi** | | | |
| **a)** | Cymeradwyo Cynllun Strategol y Brifysgol a'i Dangosyddion Perfformiad Allweddol<br><br>Cymeradwyo Is-strategaethau'r Brifysgol a'u Dangosyddion Perfformiad Allweddol | Y Cyngor<br><br>Bwrdd Gweithredol | Pwyllgor Cyllid<br><br>Cyfeirir i'r Bwrdd Gweithredol trwy bwyllgorau'r Senedd/y Cyngor fel sy'n briodol | Ordinhad 15, y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Cyllid<br><br>Mewn ymgynghoriad â'r Cyngor |
| **b)** | Cymeradwyo Ffurflen Sicrwydd Blynyddol a Rhagolygon Ariannol i HEFCW | Y Cyngor | Pwyllgor Cyllid<br><br>Pwyllgor Archwilio a Risg | Rhagolygon ariannol a gyfeirir trwy'r Pwyllgor Cyllid. Nodir gan HEFCW yn y cod rheolaeth ariannol bod rhaid cael cymeradwyaeth y Cyngor |
| **c)** | Prosesau cymeradwyo Risg | Y Cyngor | | Cyfeirir trwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg |
| **9.3** | **Penodiadau a Materion Staffio** | | | |

| | | Awdurdod Terfynol | Awdurdod Dirprwyedig (os oes un) | Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses |
|---|---|---|---|---|
| **a)** | Penodi Canghellor | Y Cyngor | | Ordinhad 9 |
| **b)** | Penodi aelodau annibynnol y Cyngor | Y Cyngor | Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | Ordinhad 3; y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu |
| **c)** | Penodi pobl i gynrychioli'r brifysgol ar wahanol gyrff ac is-gwmnïau | Y Cyngor | Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | Ordinhad 19, Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu |
| **d)** | Penodi staff anacademaidd ar y Cyngor | Y Cyngor | | Ordinhad 5 ar enwebiad gan Ysgrifennydd y Cyngor yn dilyn pleidlais |
| **e)** | Penodi Is-ganghellor | Y Cyngor | Pwyllgor Penodi'r Cyngor | Ordinhad 29; Y Cyngor ar argymhelliad Pwyllgor Penodi'r Cyngor |
| **f)** | Penodi Dirprwy i’r Is-ganghellor | Y Cyngor | Trwy bwyllgor penodi | Y Cyngor ar enwebiad yr Is-ganghellor |
| **g)** | Penodi Dirprwy Is-gangellorion | Bwrdd Gweithredol | Trwy bwyllgor penodi | Bwrdd Gweithredol ar enwebiad yr Is-ganghellor |
| **h)** | Penodi Ysgrifennydd i'r Cyngor | Y Cyngor | Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | Ordinhad 7 Y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu |

| | | Awdurdod Terfynol | Awdurdod Dirprwyedig (os oes un) | Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses |
|---|---|---|---|---|
| **i)** | Penodi archwiliwr neu archwilwyr | Y Cyngor | Pwyllgor Archwilio a Risg | Ordinhad 30; penodir yn flynyddol gan y Cyngor |
| **j)** | Penodi penaethiaid ysgolion mewn colegau | Bwrdd Gweithredol | Is-ganghellor | Ar argymhelliad yr Is-ganghellor yn dilyn Panel Penodi |
| **k)** | Penodi rhai i gadeiriau personol, athrawon er anrhydedd, athrawon ymchwil, athrawon a darllenyddion ar ymweliad | Bwrdd Gweithredol | Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenyddion | Adrodd i'r Cyngor |
| **l)** | Penodi rhai i gadeiriau sefydledig | Bwrdd Gweithredol | Bwrdd Gweithredol trwy bwyllgor penodi | Adrodd i'r Cyngor |
| **m)** | Cyflogau staff dros £100k<br><br>Cyflogau staff rhwng pwynt uchaf y golofn gyflogau a £100k | Y Cyngor<br><br>Pwyllgor Taliadau | Bydd y Pwyllgor Taliadau yn ystyried cyflogau'r Is-ganghellor, aelodau'r Bwrdd Gweithredol a staff sy'n derbyn cyflogau o £100,000 ac uwch.<br><br>Bydd y Grŵp Adolygu Cyflogau Uwch-Aelodau Staff yn ystyried cyflogau staff sy'n derbyn cyflogau rhwng pwynt uchaf y golofn gyflogau a £100,000. | Ordinhad 15. Bydd y Cyngor yn derbyn adroddiadau gan y Pwyllgor Taliadau |
| | Cydnabod codiadau cyflog o fewn graddfeydd, cynyddrannau ychwanegol, a thaliadau untro | Pwyllgor Taliadau | Is-bwyllgor Taliadau | Codiadau Cyflog o fewn Graddfeydd a Chyflogau'n Gysylltiedig â Chyfraniadau |

| | | Awdurdod Terfynol | Awdurdod Dirprwyedig (os oes un) | Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **m)** | Proses Ddiswyddo | Y Cyngor | Pwyllgor Pobl a Diwylliant | Statud XX (Rhan II); Y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Pobl a Diwylliant. |
| **n)** | Gweithdrefnau diswyddo staff, disgyblu a chwynion | Y Cyngor | Pwyllgor Pobl a Diwylliant | Statud XX |
| **o)** | Dyfarnu cymrodoriaethau a graddau er anrhydedd | Y Cyngor | Pwyllgor Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd | Ordinhad 15 – Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Graddau a Chymrodoriaethau Er Anrhydedd. |
| **p)** | Cymeradwyo gwaith allanol/ymgynghorol gan staff y brifysgol | Bwrdd Gweithredol | Yr Is-ganghellor ar gyfer aelodau'r Bwrdd Gweithredol<br><br>Dirprwy i'r Is-ganghellor ar gyfer Dirprwy Is-ganghellor/Pennaeth Coleg<br><br>Dirprwy Is-ganghellor / Pennaeth Coleg ar gyfer Penaethiaid Ysgolion<br><br>Penaethiaid Ysgolion ar gyfer staff academaidd yn eu hysgol.<br><br>Prif Swyddog Gweithredu ar gyfer Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol (ac eithrio Gwasanaethau | Polisi'r brifysgol ar waith ymgynghorol |

| | | Awdurdod Terfynol | Awdurdod Dirprwyedig (os oes un) | Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses |
|---|---|---|---|---|
| | | | Ariannol a Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol)<br><br>Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol ar gyfer staff o fewn eu portffolio | |
| **q)** | Cymeradwyo telerau ac amodau gwasanaeth, gan gynnwys taliadau a phecynnau iawndal ymddeol/diswyddo | Y Cyngor | Bwrdd Gweithredol drwy'r Prif Swyddog Pobl | Rheoliadau Ariannol (Adran 7) |
| **9.4** | **Materion Myfyrwyr** | | | |
| **a)** | Disgyblu Myfyrwyr | Y Senedd | Is-ganghellor<br>Swyddogion Disgyblu<br>Bwrdd Disgyblu<br>Bwrdd Apêl | Ordinhad 17 a Rheoliad 21 |
| **b)** | Cymeradwyo cyfraddau ffioedd dysgu myfyrwyr | Bwrdd Gweithredol | Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr, argymhelliad i'r Bwrdd Gweithredol<br><br>Ar gyfer ffioedd a ffioedd rhyngwladol ar gyfer Addysg Drawswladol, y Pwyllgor Ymgysylltu Byd-eang, argymhelliad i'r Bwrdd Gweithredol | Ordinhad 15 Pwyllgor Cyllid i gymeradwyo mecanweithiau ar gyfer pennu ffioedd dysgu |

| | | Awdurdod Terfynol | Awdurdod Dirprwyedig (os oes un) | Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses |
|---|---|---|---|---|
| **c)** | Cymeradwyo ffioedd preswyl myfyrwyr | Bwrdd Gweithredol | Bwrdd Gweithredol | Ordinhad 15 Pwyllgor Cyllid i gymeradwyo mecanweithiau ar gyfer pennu ffioedd eraill. |
| **d)** | Cymeradwyo arholwyr allanol | Y Senedd | | Llawlyfr Ansawdd Academaidd (Mae'r broses ar gyfer penodi Arholwyr Allanol wedi'i chynnwys yn y Codau Ymarfer perthnasol yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd) |
| **9.5** | **Materion cyllidebol ac ariannol** | | | |
| **a)** | Cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol a'r Rhagolygon Ariannol | Y Cyngor | | Ar argymhelliad y Pwyllgor Cyllid |
| **b)** | Rheoli refeniw, eiddo a buddsoddiadau | Y Cyngor | Bwrdd Gweithredol<br>Pwyllgor Cyllid | Ordinhad 15 a 16 Y Cyngor a'r Rheoliadau Ariannol |
| **c)** | Cymeradwyo Datganiadau Ariannol Blynyddol | Y Cyngor | Pwyllgor Cyllid<br>Pwyllgor Archwilio a Risg | Ordinhad 15, y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Cyllid /Pwyllgor Archwilio a Risg / Prif Swyddog Cyllid |
| **d)** | Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf | Y Cyngor | Pwyllgor Cyllid | Dylid cymeradwyo projectau cyfalaf ystadau yn unol â'r fframwaith yn y Llawlyfr Projectau Cyfalaf. Ar gyfer projectau eraill, dylid cyflwyno unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â |

| | | Awdurdod Terfynol | Awdurdod Dirprwyedig (os oes un) | Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses |
|---|---|---|---|---|
| | | | | phroject lle disgwylir i'r project fod yn fwy na chyfanswm o £1 miliwn, ynghyd ag achos busnes i'r Bwrdd Gweithredol, a fydd yn cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Cyllid i'w graffu, ac wedi hynny i'r Cyngor. |
| **e)** | Monitro'r sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn | Y Cyngor | Pwyllgor Cyllid | Dylid cymeradwyo projectau cyfalaf ystadau yn unol â'r fframwaith yn y Llawlyfr Projectau Cyfalaf. Ar gyfer projectau eraill, dylid cyflwyno unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â phroject lle disgwylir i'r project fod yn fwy na chyfanswm o £1 miliwn, ynghyd ag achos busnes i'r Bwrdd Gweithredol, a fydd yn cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Cyllid i'w graffu, ac wedi hynny i'r Cyngor. |
| **f)** | Creu mentrau neu gwmnïau newydd | Y Cyngor | Pwyllgor Cyllid | Ordinhad 15, y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Cyllid |
| **g)** | Swyddog Atebol y brifysgol | Is-ganghellor | | Rheoliadau Ariannol |
| **h)** | Rheoli trysorlys o fewn strategaeth gyffredinol y trysorlys, gan gynnwys buddsoddiadau | Prif Swyddog Cyllid | Llofnodwyr banc fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Cyllid | Rheoliadau Ariannol |

| | | Awdurdod Terfynol | Awdurdod Dirprwyedig (os oes un) | Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses |
|---|---|---|---|---|
| **i)** | Sefydlu cyfleusterau benthyca | Y Cyngor | Pwyllgor Cyllid | Ordinhad 15 |
| **j)** | Diwygio cyfleusterau benthyca | Pwyllgor Cyllid | Bwrdd Gweithredol | |
| **k)** | Cymeradwyo gwerthu ecwiti neu drosglwyddo busnes mewn cwmnïau sy'n eiddo i'r brifysgol | Y Cyngor | Pwyllgor Cyllid | Ordinhad 15 |
| **l)** | Derbyn rhoddion a gwaddolion | Y Cyngor | Rhaid i'r Grŵp Goruchwylio Rhoddion ystyried pob rhodd bosibl neu wirioneddol i'r brifysgol o £100,000 neu fwy, neu bob rhodd bosibl neu wirioneddol o lai na £100,000 sy'n mynd â rhoddion cronnus rhoddwr i'r brifysgol dros £100,000, gydag argymhelliad yn cael ei wneud wedyn i'r Bwrdd Gweithredol.<br><br>Bydd pob rhodd bosibl neu wirioneddol lle mae gwerth ariannol gweithgaredd arfaethedig i'r brifysgol yn fwy na £1m, yn cael eu hystyried gan y Cyngor, ar argymhelliad y Bwrdd Gweithredol (ar ôl derbyn argymhelliad gan y Grŵp Goruchwylio Rhoddion) | Polisi ar Dderbyn Rhoddion |

| | | Awdurdod Terfynol | Awdurdod Dirprwyedig (os oes un) | Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses |
|---|---|---|---|---|
| **m)** | Dileu dyledion | Bwrdd Gweithredol | Hyd at £5000 Dirprwy Brif Swyddog Cyllid<br><br>Hyd at £100,000 Prif Swyddog Cyllid<br><br>Dros £100,000 Prif Swyddog Cyllid gyda chymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol | Dyledion sylweddol a ddilëwyd i'w nodi yn yr Adroddiad Perfformiad Ariannol Chwarterol |
| **n)** | Awdurdodi contractau neu weithredoedd dan sêl | Y Cyngor (gan gynnwys sêl y brifysgol) | Ysgrifennydd y Brifysgol fel rheol ac un o'r canlynol. Yn absenoldeb Ysgrifennydd y Brifysgol, dau o'r canlynol<br><br>Is-ganghellor<br>Prif Swyddog Cyllid<br>Prif Swyddog Gweithredu | Ordinhad 8 |
| **o)** | Penodi ymddiriedolwyr pensiwn cyflogwr a enwebwyd gan y brifysgol | Y Cyngor | Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | |
| **p)** | Cynrychiolydd y Cyflogwr mewn perthynas â BUPAS | Prif Swyddog Cyllid | | |
| **9.6** | **Rhaglen Gyfalaf a Materion Ystadau** | | | |
| **a)** | Cymeradwyo projectau cyfalaf | Y Cyngor | Pwyllgor Cyllid | Mae'r Fframwaith Rheoli Rhaglenni Cyfalaf yn pennu sut y dylid |

| | | Awdurdod Terfynol | Awdurdod Dirprwyedig (os oes un) | Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses |
|---|---|---|---|---|
| | | | | categoreiddio projectau a'r awdurdod sy'n ofynnol. |
| **b)** | Caffael eiddo a thir | Y Cyngor | | Ordinhad 15; gan y Cyngor llawn yn unig |
| **c)** | Gwaredu eiddo a thir | Y Cyngor | | Ordinhad 15; gan y Cyngor llawn yn unig |
| **d)** | Contractau eraill sy'n gysylltiedig ag ystadau a thechnoleg gwybodaeth (e.e. contractau adeiladu, contractau gwasanaethau, contractau systemau technoleg gwybodaeth) | Y Cyngor | Prif Swyddog Trawsnewid<br><br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau a Champws / Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol | Rheoliadau ariannol (yn unol ag Atodiad A y rheoliadau) |
| **e)** | Goruchwylio llety preswyl a gwasanaethau arlwyo a lletygarwch sy'n eiddo i'r brifysgol | Y Cyngor | Pwyllgor Cyllid | Ordinhad 15, y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Cyllid |
| **8.7** | **Contractau, Cytundebau a Thrwyddedau** | | | |
| **a)** | Cymeradwyo contractau a chytundebau (nas nodir fel arall yn y cynllun hwn) | Y Cyngor | Is-ganghellor<br>Dirprwy i'r Is-ganghellor<br>Prif Swyddog Gweithredu<br>Prif Swyddog Cyllid<br>Prif Swyddog Trawsnewid<br>Ysgrifennydd y Brifysgol | Rheoliadau ariannol (atodiad A) |

| | | Awdurdod Terfynol | Awdurdod Dirprwyedig (os oes un) | Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses |
|---|---|---|---|---|
| | | | Dirprwy Is-ganghellor (Ymgysylltu Byd-eang) ar gyfer gweithgareddau Byd-eang | |
| **b)** | Contractau a chytundebau ymchwil ac sy'n gysylltiedig ag ymchwil | Bwrdd Gweithredol | Prif Swyddog Gweithredu / Prif Swyddog Cyllid / Ysgrifennydd y Brifysgol / Prif Swyddog Strategaeth a Chynllunio<br><br>Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil)<br><br>Dirprwy Is-ganghellor (Ymgysylltu Byd-eang) ar gyfer gweithgareddau byd-eang<br><br>Pennaeth IRIS / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol <£1m<br><br>Rheolwr Ôl-Ddyfarnu / Rheolwr Effaith Ymchwil a Datblygu <£500k | Rheoliadau ariannol (adran 5.5) |

| | | Awdurdod Terfynol | Awdurdod Dirprwyedig (os oes un) | Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses |
|---|---|---|---|---|
| **c)** | Memoranda Cyd-ddealltwriaeth yn ymwneud â datblygu cysylltiadau mewn ymchwil, arloesi, neu gysylltiadau sgiliau | Bwrdd Gweithredol | Is-ganghellor / Dirprwy i'r Is-ganghellor<br><br>Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil), Dirprwy Is-ganghellor (Y Gymraeg, Cenhadaeth Ddinesig a Phartneriaethau Strategol) neu Ddirprwy Is-ganghellor (Ymgysylltu Byd-eang) fel y nodir gan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth | |
| d) | Cytundebau masnacheiddio a chontractau yn ymwneud â chyfrinachedd, peidio â datgelu, trosglwyddo deunydd ac ati.<br><br>Cadarnhad cyfreithiol (gan gynnwys gweithredoedd) yn ymwneud â chyflawni eiddo deallusol gyda swyddfeydd rhyngwladol perthnasol (neu gyfwerth). | Bwrdd Gweithredol | Prif Swyddog Cyllid / Ysgrifennydd y Brifysgol / Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil) / Prif Swyddog Strategaeth a Chynllunio<br><br>Pennaeth IRIS / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol <£1m<br><br>Rheolwr Ôl-Ddyfarnu / Rheolwr Effaith Ymchwil a Datblygu <£500k | Mewn perthynas ag Eiddo Deallusol, dylai unrhyw awdurdodi sydd ei angen ragdybio bod angen craffu er mwyn cadarnhau achos busnes neu gyfwerth cyn pennu lefel yr awdurdod sydd ei angen. |
| **e)** | Contractau cysylltiedig â chyflogaeth | Y Cyngor | Prif Swyddog Pobl | Rheoliadau ariannol (adran 7.10) |
| **f)** | Cytundebau ar gyfer darparu gwasanaethau gan y brifysgol | Prif Swyddog Cyllid | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid <£1m | Rheoliadau ariannol (adran 10), ac enwebai yn unol â chyfarwyddyd y Prif Swyddog Cyllid |

| | | Awdurdod Terfynol | Awdurdod Dirprwyedig (os oes un) | Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses |
|---|---|---|---|---|
| g) | Rhaglenni a ddilysir yn allanol/rhaglenni wedi eu breinio/cytundebau cydweithredol/rhaglenni ar y cyd a rhaglenni deuol, canolfannau hyfforddiant doethurol a/neu unrhyw fath arall o bartneriaeth o bwys | Bwrdd Gweithredol | Is-ganghellor (pob un)<br><br>Dirprwy i'r Is-ganghellor neu Ddirprwy Is-ganghellor (Addysg) ar gyfer materion y Deyrnas Unedig<br><br>Dirprwy Is-ganghellor (Ymgysylltu Byd-eang), ar gyfer materion rhyngwladol | Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gydweithredol |
| h) | Cytundebau Cydweddu a Memoranda Cyd-ddealltwriaeth yn ymwneud â datblygu partneriaethau addysg | Bwrdd Gweithredol | Is-ganghellor (pob un)<br><br>Dirprwy i'r Is-ganghellor neu Ddirprwy Is-ganghellor (Addysg) ar gyfer materion y Deyrnas Unedig<br><br>Dirprwy Is-ganghellor (Ymgysylltu Byd-eang), ar gyfer materion rhyngwladol | Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gydweithredol |
| i) | Cydweithio â sefydliadau addysg uwch eraill i ddarparu modiwlau hyfforddedig/modiwlau dysgu yn y gwaith | Bwrdd Gweithredol | Dirprwy Is-ganghellor (Addysg), ar gyfer materion y Deyrnas Unedig / Dirprwy Is-ganghellor (Ymgysylltu Byd-eang), ar gyfer materion rhyngwladol | Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gydweithredol/Gweithdrefn Dysgu ar Leoliad (Gweithdrefn 3) |
| **j)** | Cymeradwyo trwyddedau rheoliadol (Deddf Meinwe Dynol, Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) etc.) | Ysgrifennydd y Brifysgol - meinwe dynol | | |

| | | Awdurdod Terfynol | Awdurdod Dirprwyedig (os oes un) | Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses |
|---|---|---|---|---|
| | | Prif Swyddog Gweithredu - trwyddedau rheoleiddio eraill | | |
| **k)** | Cymeradwyo ceisiadau gan drydydd partïon i ddefnyddio hawlfraint y brifysgol | Prif Swyddog Trawsnewid | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol | |
| l) | Cytundebau rhannu data o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 | Ysgrifennydd y Brifysgol | Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol | |
| **9.8** | **Materion Gwybodaeth a'r Cyfryngau** | | | |
| **a)** | Cytundebau ffilmio | Bwrdd Gweithredol | Prif Swyddog Marchnata/Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Brand | |
| **b)** | Awdurdodi datganiadau i'r cyfryngau | Bwrdd Gweithredol | Prif Swyddog Marchnata/Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Brand | |
| **c)** | Cymeradwyo defnyddio arfbais/logo'r brifysgol | Bwrdd Gweithredol | Prif Swyddog Marchnata/Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Brand | |
| **d)** | Dosbarthiad gwybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (Cynllun Cyhoeddi Prifysgol Bangor) | Ysgrifennydd y Brifysgol | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol | |

| | | Awdurdod Terfynol | Awdurdod Dirprwyedig (os oes un) | Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **e)** | Gweithredu sancsiynau'n ymwneud â mynediad unigolion at wasanaethau a chyfleusterau llyfrgell y brifysgol | Prif Swyddog Trawsnewid | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol | |
| **f)** | Gweithredu sancsiynau'n ymwneud â'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth | Prif Swyddog Trawsnewid/Ysgrifennydd y Brifysgol | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol | |
| **g)** | Cymeradwyo defnydd allanol o gyfleusterau cyfrifiadurol a meddalwedd y brifysgol | Prif Swyddog Trawsnewid | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol | |
| **9.9** | **Dyletswyddau Cyfreithiol** | | | |
| **a)** | Goruchwylio a rheoli deddfwriaeth iechyd a diogelwch a pholisi iechyd a diogelwch y brifysgol | Y Cyngor | Prif Swyddog Gweithredu<br><br>Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau<br><br>Dirprwy Is-ganghellor (Ymgysylltu Byd-eang) yn benodol ar gyfer Dyletswydd Gofal dramor | |
| **b)** | Goruchwylio a rheoli gofynion Mesur yr Iaith Gymraeg 2011 | Y Cyngor | Dirprwy Is-ganghellor (Y Gymraeg, Cenhadaeth Ddinesig a Phartneriaethau Strategol) | Ordinhad 15; y Cyngor ar argymhelliad Pwyllgor Materion y Gymraeg |

| | | Awdurdod Terfynol | Awdurdod Dirprwyedig (os oes un) | Terfynau Dirprwyo, Cyd-destun a Phroses |
|---|---|---|---|---|
| | | | Pwyllgor yr iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru<br><br>Pwyllgor Materion y Gymraeg | |